| Enw'r Ymgeisydd *Candidate's Name* | Rhif y Ganolfan *Centre Number* | Rhif yr Ymgeisydd *Candidate Number* |
|---|---|---|
| | | 0 |

**TGAU**

229/06

# PEILOT CYMRAEG AIL IAITH (CWRS LLAWN)
# *WELSH SECOND LANGUAGE PILOT (FULL COURSE)*

## BYW'R GYMRAEG
## *LIVING THROUGH WELSH*

## GWRANDO A DEALL
## *LISTENING COMPREHENSION*

## HAEN UWCH
## *HIGHER TIER*

## COPI'R YMGEISYDD
## *CANDIDATE'S COPY*

A.M. DYDD IAU, 9 Mehefin 2011
*A.M. THURSDAY, 9 June 2011*
Tua 45 munud
*Approximately 45 minutes*

| Rhif y Cwestiwn | Arholwr yn Unig |
|---|---|
| 1 | |
| 2 | |
| 3 | |
| Cyfanswm | |

0229
060001

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Bydd yn rhaid i chi wrando ar dâp i ateb y cwestiynau yn yr arholiad hwn.

**CYFARWYDDIADAU**

Defnyddiwch inc neu feiro du.
Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.
Cewch glywed 3 darn yn Gymraeg.
Cewch glywed pob darn dair gwaith.
Cewch gyfle i edrych ar y cwestiynau cyn clywed y darnau am y tro cyntaf a bydd seibiant ar ôl pob darlleniad.
Ar ddiwedd Cwestiwn 3 bydd seibiant o 1 funud pryd y gallwch edrych dros eich atebion i gyd.
Cewch ysgrifennu'r atebion yn eich llyfr atebion unrhyw bryd yn ystod yr arholiad.

**GWYBODAETH**

Nodir y marciau a ddyfernir ar gyfer cywirdeb mynegiant o fewn y cwestiynau fel a ganlyn: [✓ = 2] ac ati.

***ADDITIONAL MATERIALS***

*You must listen to a tape in order to answer the questions in this examination.*

***INSTRUCTIONS***

*Use black ink or black ball-point pen.*
*Write your name, centre number and candidate number in the spaces at the top of this page.*
*You will hear 3 passages in Welsh.*
*You will hear each passage three times.*
*You will have an opportunity to look at the questions before listening to each passage for the first time and after all readings there will be a pause.*
*At the end of Question 3 there will be a pause of 1 minute when you can look over all your answers.*
*You may write your answers in the answer book at any time during the examination.*

***INFORMATION***

*Marks awarded for accuracy of expression within the questions are indicated as follows: [✓ = 2] etc.*

LH*(S11-0229-06)

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**CWESTIWN 1** ***(QUESTION 1)***

Mae Cwmni Teledu Auropolis yn chwilio am bobl ifanc i gymryd rhan mewn sioe dalent newydd o'r enw *Diddanu*. Gwrandewch ar ddechrau negeseuon pump o bobl ifanc ar y peiriant ateb, yna llenwch y grid **yn Gymraeg** gyda'r wybodaeth berthnasol.
*Auropolis Television Company are looking for young people to take part in a new talent show called 'Diddanu'. Listen to the beginning of messages from five young people on the answer phone, then complete the grid* ***in Welsh*** *with the relevant information.* (10 + ✓ = 20) = **[30]**

**1.** Enw: *Eleri* O ble?: *Caergybi*

Gwneud beth? .................................................... [½ + ✓ = 1 = **1½**]

Gwybodaeth arall?

*(a)* .................................................... [½ + ✓ = 1 = **1½**]

*(b)* .................................................... [½ + ✓ = 1 = **1½**]

*(c)* *Newydd ei dewis fel aelod o Gerddorfa Ieuenctid Cymru.*

**2.** Enw: *Berian* O ble?: .................................................... [½ + ✓ = ½ = **1**]


Gwneud beth? .................................................... [½ + ✓ = 1 = **1½**]

Gwybodaeth arall?

*(a)* *Mewn grŵp o'r enw 'Llygaid Glas'*

*(b)* .................................................... [½ + ✓ = 1 = **1½**]

*(c)* .................................................... [½ + ✓ = 1 = **1½**]



Arholwr yn unig *Examiner only*

**3.** Enw: *Ellie* O ble?: *Llanandras*

Gwneud beth? .................................................................................................... [½ + ✓ = 1 = **1½**]

Gwybodaeth arall?

*(a)* .................................................................................................... [½ + ✓ = 1 = **1½**]

*(b)* .................................................................................................... [½ + ✓ = 1 = **1½**]

*(c)* *Eisiau bod yn llwyddiannus fel Duffy.*

**4.** Enw: *Zaheer* O ble?: .................................................................................................... [½ + ✓ = ½ = **1**]

Gwneud beth? Comedïwr

Gwybodaeth arall?

*(a)* *Yn meddwl ei fod yn ddoniol iawn.*

*(b)* .................................................................................................... [½ + ✓ = 1 = **1½**]

*(c)* .................................................................................................... [½ + ✓ = 1 = **1½**]

0229 060003

**5.** Enw: *Stacey* O ble?: .................................................................................................... [½ + ✓ = ½ = **1**]

Gwneud beth? .................................................................................................... [½ + ✓ = 1 = **1½**]

Gwybodaeth arall?

*(a)* .................................................................................................... [½ + ✓ = 1 = **1½**]

*(b)* .................................................................................................... [½ + ✓ = 1 = **1½**]

*(c)* *Wedi cystadlu yn Llangollen.*

**6.** Pa un o'r 5 hoffech chi weld neu glywed? ....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

[½ + ✓ = 2 = **2½**]

**7.** Pam? ....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

[1 + ✓ = 2½ = **3½**]

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**CWESTIWN 2** ***(QUESTION 2)***

Rydych chi'n gweithio yn Adran Newyddion cwmni teledu. Eich gwaith chi ydy ysgrifennu penawdau ar gyfer yr eitemau newyddion. Gwrandewch ar benawdau'r newyddion, yna llenwch y bylchau yn y penawdau isod gyda'r wybodaeth berthnasol **yn Gymraeg**.
*You are working for the News Department of a television company. Your task is to write the headlines for the news items. Listen to the news headlines, then fill in the gaps in the headlines below with the relevant information* ***in Welsh****.*

(10 + ✓ = 10) **= [20]**

| | |
|---|---|
|  | **1.** .................................................. yn dioddef yn Affrica achos y .................................................................... sych. |
|  | **2.** .................................................. yn broblem yn y wlad yma. .................................................. alcohol yn cael y bai. |
|   | **3.** Ffermwr yn aros deg .................................................. cyn cael ei gludo i'r .................................................. . |
|  | **4.** Yn ôl meddygon, .......................................................... y cant o weithwyr Cymru yn colli gwaith achos .......................................................... tost. |
|   | **5.** .................................................. i gant a hanner o bobl wrth i archfarchnad fawr .................................................. yn y gogledd . |

Arholwr
yn unig
*Examiner*
*only*

| | |
|---|---|
|  | **6.** Cantores o Gymru yn .................................................. yn y .................................................. realiti fawr. |
|  | **7.** .................................................. westy o Gymru ar restr y deg gwesty .................................................. ym Mhrydain. |
| | **8.** Tîm .................................................. Caerdydd yn prynu chwaraewr am bedair .................................................. o bunnoedd. |
|  | **9.** Seiclwyr Cymru yn gobeithio .................................................. medalau aur yn y Gemau Olympaidd yn ........................................................................ . |
|  | **10.** A dyma'r tywydd - .................................................. trwm drwy'r wlad yn syrthio fel .................................................. dros fynyddoedd y gogledd. |



**Trosodd.**

Arholwr yn unig *Examiner only*

**CWESTIWN 3** ***(QUESTION 3)***

Gwrandewch ar Siân yn holi Matthew Rhys yna atebwch y cwestiynau **yn Gymraeg**.
*Listen to Siân interviewing Matthew Rhys then answer the questions* ***in Welsh****.*

(30 + ✓ = 20) **= [50]**

**ADRAN 1**

**1.** *(a)* Cafodd Matthew Rhys ei eni ym mis .................................................. yn ninas ........................................................................ . [1]

*(b)* Glyn ydy enw ........................................................................ Matthew, Helen ydy ei ........................................................ a Rachel ydy enw ei .................................................. [1½]

**2.** *(a)* .......................................................................................... oedd gwaith tad Matthew, ac roedd ei fam yn ........................................................................ . [1 + ✓ = 1 = **2**]

*(b)* Roedd ei fam yn dysgu plant ........................................................................ [1 + ✓ = 1 = **2**]

**3.** *(a)* Ei hoff bynciau yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf oedd:

(i) .......................................... (ii) .......................................... (iii) .......................................... [1½]

achos ........................................................................................................................ [1 + ✓ = 1 = **2**]

*(b)* Roedd e hefyd yn hoff iawn o (i) ............................................................ [1]

(ii) ............................................................ [1]

**ADRAN 2**

**4.** Pam mae Matthew yn siarad am Elvis Presley? ............................................................................................

............................................................................................................................................[1 + ✓ = 2 = **3**]

**5.** *(a)* Beth wnaeth Matthew a Ioan Gruffudd ar ôl gadael Ysgol Glantaf?

................................................................................................................................ [1 + ✓ = 1 = **2**]

*(b)* Beth arall mae e'n dweud am Ioan Gruffudd?

(i) ............................................................................................................................ [1 + ✓ = 1 = **2**]

(ii) ........................................................................................................................... [1 + ✓ = 1 = **2**]

**6.** Yn ôl Matthew, beth ydy ffrind da?

(i) ............................................................................................................................ [1 + ✓ = 1 = **2**]

(ii) ........................................................................................................................... [1 + ✓ = 1 = **2**]

Arholwr yn unig *Examiner only*

## ADRAN 3

**7.** *(a)* Beth ydy'r gwahaniaeth mawr rhwng Cymru a Hollywood? ..........

.......... [1 + ✓ = 1 = **2**]

*(b)* Beth oedd barn Sienna Miller a Keira Knightley am Orllewin Cymru? .

.......... [1 + ✓ = 1 = **2**]

**8.** Beth mae Matthew yn dweud am *The Edge of Love*?

*(a)* .......... [1 + ✓ = 1 = **2**]

*(b)* .......... [1 + ✓ = 1 = **2**]

**9.** Mae actio yn *Brothers and Sisters* wedi bod yn brofiad gwych. Pam?

(i) ..........

.......... [1 + ✓ = 1 = **2**]

(ii) ..........

.......... [1 + ✓ = 1 = **2**]




## ADRAN 4

**10.** Beth ydy barn Matthew am ysmygu, goryfed a chymryd cyffuriau?

*(a)* .......... *(b)* .......... .[2 + ✓ = 1 = **3**]

Pam? .......... [1 + ✓ = 1 = **2**]

**11.** Sut mae Matthew yn edrych ar ôl ei gorff?

*(a)* .......... [1]

*(b)* .......... [1]

**12.** *(a)* Beth fasai'n fwy pwysig i Matthew nag actio? ..........

.......... [2 + ✓ = 1 = **3**]

*(b)* Beth ydy neges bwysig Matthew? ..........

.......... [2 + ✓ = 1 = **3**]

TGAU

229/06-A

**PEILOT CYMRAEG AIL IAITH (CWRS LLAWN)**
***WELSH SECOND LANGUAGE PILOT (FULL COURSE)***
**BYW'R GYMRAEG**
***LIVING THROUGH WELSH***
**GWRANDO A DEALL**
***LISTENING COMPREHENSION***
**HAEN UWCH**
***HIGHER TIER***
**COPI'R ATHRO/ATHRAWES**
***TEACHER'S COPY***
**SGRIPT TÂP**
***TAPE TRANSCRIPT***

0229
06A001

A.M. DYDD IAU, 9 Mehefin 2011
*A.M. THURSDAY, 9 June 2011*

Tua 45 munud
*Approximately 45 minutes*

Mae'r arholiad cyfan gan gynnwys y seibiannau wedi ei amseru ar y tâp. Ni ddylid stopio'r tâp hyd nes bydd yr arholiad wedi gorffen.

*The whole examination including the pauses has been timed on the tape. The tape should not be stopped until the end of the examination.*

**CWESTIWN 1**

Mae Cwmni Teledu Auropolis yn chwilio am bobl ifanc i gymryd rhan mewn sioe dalent newydd o'r enw *Diddanu*. Astudiwch y grid ar dudalennau 2 a 3 am bump o bobl ifanc sydd â diddordeb.
*Auropolis Television Company are looking for young people to take part in a new talent show called 'Diddanu'. Study the grid on pages 2 and 3 about five young people who are interested.*

Saib (½ munud)

Nawr gwrandewch ar y pump, yna rhowch y wybodaeth berthnasol yn y grid, **yn Gymraeg**.
*Now listen to the five, then put the relevant information in the grid,* ***in Welsh****.*

Eleri ydw i. Dw i'n byw yng Nghaergybi yn Sir Fôn. Hoffwn i gael cyfle i ganu'r ffidil ar y rhaglen newydd. Dw i'n meddwl fy mod i'n dda iawn. Dw i'n aelod o gerddorfa'r ysgol a cherddorfa'r sir. Dw i newydd gael fy newis yn aelod o Gerddorfa Ieuenctid Cymru.

Saib (¼ munud)

Fy enw i ydy Berian. Rwy'n dod o Wrecsam. Rwy'n chwarae'r drymiau mewn grŵp o'r enw *Y Llygaid Glas*. Mae pump yn y grŵp. Mae'r pump ohonom yn mynd i'r un ysgol. Rydyn ni eisiau gwneud cryno ddisg y flwyddyn nesa.

Saib (¼ munud)

Ellie ydw i o Lanandras. Rydw i'n gallu canu'n dda iawn. Rydw i'n canu'r gitar hefyd. Rydw i wedi ennill yn Eisteddfod yr Urdd. Fy uchelgais ydy bod yn llwyddiannus fel Duffy.

Saib (¼ munud)

Zaheer ydw i o ddinas Caerdydd. Comedïwr ydw i. Yn fy marn i dw i'n ddoniol iawn. Mae fy ffrindiau bob amser yn chwerthin ar fy jôcs. Fy uchelgais ydy cael rhaglen deledu fy hun – fel Rhod Gilbert.

Saib (¼ munud)

Stacey ydw i o Abergwaun yn Sir Benfro. Hoffwn i ddawnsio ar y rhaglen. Rwy'n aelod o barti dawnsio o'r enw *Traed Ysgafn*. Rydyn ni'n ceisio dawnsio fel *Riverdance*, y dawnswyr o Iwerddon. Rydyn ni'n gwneud tipyn o ddawnsio gwerin Cymraeg hefyd. Rydyn ni wedi cystadlu yn Llangollen.

Saib (¼ munud)

Nawr atebwch gwestiynau 6 a 7.
*Now answer questions 6 and 7.*

Saib (½ munud)

Dyma'r disgyblion eto.
*Here are the pupils again.*

Y disgyblion fel uchod.

Saib (½ munud)

Dyma'r disgyblion am y tro olaf.
*Here are the pupils for the last time.*

Y disgyblion fel uchod.

Saib (½ munud)

**CWESTIWN 2**

Rydych chi'n gweithio yn Adran Newyddion cwmni teledu. Eich gwaith chi ydy ysgrifennu penawdau ar gyfer yr eitemau newyddion.
*You are working for the News Department of a television company. Your task is to write the headlines for the news items.*

Astudiwch y penawdau ar dudalen 4 a 5.
*Study the headlines on pages 4 and 5.*

Saib (½ munud)

Gwrandewch ar benawdau'r newyddion, yna llenwch y bylchau yn y penawdau sy o'ch blaen gyda'r wybodaeth berthnasol **yn Gymraeg**.
*Listen to the news headlines, then fill in the gaps in the headlines in front of you with the relevant information **in Welsh**.*

**1.** **Miloedd** yn dioddef yn Affrica achos y **tywydd** sych.
**2.** **Goryfed** yn broblem yn y wlad yma. **Pris** alcohol yn cael y bai.
**3** Ffermwr yn aros deg **awr** cyn cael ei gludo i'r **ysbyty**.
**4.** Yn ôl meddygon, **pymtheg** y cant o weithwyr Cymru yn colli gwaith achos **cefn** tost.
**5.** **Gwaith** i gant a hanner o bobl wrth i archfarchnad fawr **agor** yn y gogledd.
**6.** Cantores o Gymru yn **ail** yn y **rhaglen** realiti fawr.
**7.** **Dau** westy o Gymru ar restr y deg gwesty **gorau** ym Mhrydain.
**8.** Tîm **pêl-droed** Caerdydd yn prynu chwaraewr am bedair **miliwn** o bunnoedd.
**9.** Seiclwyr Cymru yn gobeithio **ennill** medalau aur yn y Gemau Olympaidd yn **Lloegr**.
**10.** A dyma'r tywydd – **glaw** trwm drwy'r wlad yn syrthio fel **eira** dros fynyddoedd y gogledd.

0229
06A003

Saib (½ munud)

Dyma'r penawdau eto.
*Here are the headlines again.*

Y penawdau fel uchod.

Saib (½ munud)

Dyma'r penawdau am y tro olaf.
*Here are the headlines for the last time.*

Y penawdau fel uchod.

Saib (½ munud)

**CWESTIWN 3**

Edrychwch ar y cwestiynau ar dudalennau 6 a 7 am gyfweliad Siân gyda Matthew Rhys, yr actor enwog o Gaerdydd.
*Look at the questions on pages 6 and 7 about an interview between Siân and Matthew Rhys, the famous actor from Cardiff.*

Saib (½ munud)

Nawr gwrandewch ar y cyfweliad ac atebwch y cwestiynau.
*Now listen to the interview and answer the questions.*

| | |
|---|---|
| Siân: | Matthew Rhys, yr actor enwog, croeso. |
| Matthew: | Diolch. |
| Siân: | Beth am ddechrau gyda'ch cefndir? |
| Matthew: | Iawn. Wel, ces i 'ngeni ar Dachwedd 8, 1974, yn y brifddinas, Caerdydd. |
| Siân: | Beth am eich teulu? |
| Matthew: | Prifathro oedd gwaith fy nhad, Glyn, a mam, Helen, yn athrawes – yn dysgu plant dall, plant oedd ddim yn gallu gweld. Mae chwaer 'da fi o'r enw Rachel. |
| Siân: | Fe aethoch chi i ysgolion Cymraeg. |
| Matthew: | Do. Es i i Ysgol gynradd Melin Gruffudd ac yna i Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf. Yn Ysgol Glantaf fy hoff bynciau oedd chwaraeon, celf a drama – achos doedd dim rhaid i fi eistedd tu ôl i ddesg drwy'r amser. Roeddwn i'n hoffi gweithgareddau'r Urdd a roeddwn i'n aelod o'r sgowtiaid – y '*Boy Scouts*'. Roeddwn i'n dwlu ar chwarae rygbi, hoci iâ a hoci stryd. Ac actio yn y sioeau, wrth gwrs. |

Nawr atebwch gwestiynau 1, 2 a 3.
*Now answer questions 1, 2 and 3.*

Saib (½ munud)

| | |
|---|---|
| Siân: | Gawsoch chi rannau diddorol yn yr ysgol? |
| Matthew: | Do. Mewn un sioe gerdd ces i'r brif ran – rhan Elvis Presley. |
| Siân: | Ac wedi gadael yr ysgol? |
| Matthew: | Es i i RADA, yr academi ddrama enwog yn Llundain. Aeth fy ffrind, Ioan Gruffudd yno hefyd. Roedden ni'n rhannu tŷ yn Llundain am tua deng mlynedd. Cawson ni lawer o hwyl. Rydyn ni'n ffrindiau da o hyd. Mae Ioan wedi priodi'r actores Alice Evans nawr – roeddwn i'n was priodas – '*best man*' – yn y briodas. |
| Siân: | Beth ydy ffrind da? |
| Matthew: | Mae ffrind da bob amser yn barod i wrando. Rydych chi'n gallu siarad am bopeth gyda ffrind da. Mae ffrind da bob amser yn ffyddlon ac wrth gwrs, rydych chi'n cael hwyl gyda'ch gilydd. |
| Siân: | Rydych chi a Ioan yn actorion llwyddiannus erbyn hyn - yn enwog dros y byd ac yn Hollywood wrth gwrs. |
| Matthew: | Rydyn ni'n lwcus iawn. |

Nawr atebwch gwestiynau 4, 5 a 6.
*Now answer questions 4, 5 and 6.*

Saib (½ munud)

| | |
|---|---|
| Siân: | Beth ydy'r gwahaniaeth mawr rhwng Hollywood a Chymru? |
| Matthew: | Y gwahaniaeth mwya' ydy'r wlad. Mae Cymru yn llawer mwy hardd na Hollywood. Mae Cymru yn llawer mwy gwyrdd. Pan oedden ni'n ffilmio '*The Edge of Love*' yng ngorllewin Cymru roedd Sienna Miller a Keira Knightley wrth eu bodd. Roedden nhw'n meddwl bod y wlad yn hardd iawn. Roedden nhw'n caru gorllewin Cymru. |
| Siân: | Sut brofiad oedd actio yn *The Edge of Love*? |
| Matthew: | Roedd e'n brofiad anhygoel. Roeddwn i'n chwarae rhan Dylan Thomas, y bardd enwog. Roedd hi'n gallu bod yn anodd iawn weithiau achos mae Dylan yn boblogaidd iawn yng Nghymru, ac yn America, wrth gwrs. Roedd Sienna a Keira yn hyfryd ond yn ddrygionus iawn. Roedd hi'n anodd peidio chwerthin weithiau. |
| Siân: | A beth am y gyfres *Brothers and Sisters*? |
| Matthew: | Profiad gwych arall. Mae'r cast yn gyfeillgar iawn. Rydw i wedi cael cyfle i chwarae rhan wahanol iawn – rhan Kevin Walker. Mae llawer mwy o bobl yn fy adnabod nawr – yn America ac yn y wlad yma. |

Nawr atebwch gwestiynau 7, 8 a 9.
*Now answer questions 7, 8 and 9.*

Saib (½ munud)

| | |
|---|---|
| Siân: | Roedd Dylan Thomas yn ysmygu ac yn goryfed, yn ôl pob tebyg. Beth ydy'ch barn chi am ysmygu, goryfed a chymryd cyffuriau? |
| Matthew: | Maen nhw i gyd yn beryglus. Maen nhw'n afiach. Maen nhw'n arferion twp. Maen nhw'n gallu eich lladd chi. Yn sicr, maen nhw'n ddrwg i'r corff. |
| Siân: | Sut rydych chi'n edrych ar ôl eich corff? |
| Matthew: | Rydw i'n ceisio bwyta'n iach. Yn anffodus, y pizza sy'n ennill weithiau. Ond, rydw i'n cadw'n heini hefyd. Ar hyn o bryd rydw i'n paffio ac yn syrffio llawer. Rydw i'n hoffi pob math o chwaraeon. Fy uchelgais oedd chwarae rygbi dros Gymru. Baswn i wedi bod yn barod i roi'r gorau i actio er mwyn cael chwarae dros Gymru. |
| Siân: | Mae Cymru'n bwysig i chi felly? |
| Matthew: | Ydy, yn bwysig iawn. A'r iaith Gymraeg hefyd. Mae'r iaith Gymraeg yn hen iawn. Mae hi'n drysor - trysor gwerthfawr. Rhaid i ni ddefnyddio a siarad y Gymraeg er mwyn ei chadw hi'n fyw. Mae'r neges yna'n bwysig iawn. |
| Siân: | Pwysig iawn. Diolch Matthew am gyfweliad diddorol iawn. |
| Matthew: | Croeso. |

Nawr atebwch y 3 chwestiwn olaf.
*Now answer the last 3 questions.*

Saib (½ munud)

Dyma'r cyfweliad eto.
*Here's the interview again.*

Y cyfweliad fel uchod.

Saib (½ munud)

Dyma'r cyfweliad am y tro olaf.
*Here's the interview for the last time.*

Y cyfweliad fel uchod.

Saib (½ munud)

A dyna ddiwedd y prawf. Bydd eich llyfrau ateb yn cael eu casglu nawr.
*That is the end of the test. Your answer papers will now be collected.*